Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Canfod eich Rôl yng Nghyllun Gweithredu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

**Diweddariad ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn**

**Chwefror 2022**

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

**Cafodd 'Canfod eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ei gyhoeddi ym mis Ionawr  2021 fel cyd-weledigaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd fwyfwy mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngymru.**

**Cafodd y Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys ei sefydlu fel man cyfarfod y cyfranwyr cyhoeddus, ymchwilwyr a lluniwyr polisi sydd â diddordeb mewn ymgysylltu gydag aelodau'r cyhoedd a'u gynnwys mewn trafodaethau fel y gallant gyfrannu tuag at weithgareddau a amlinellir yn y cynllun gweithredu.**

**Bwriad y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth ar y prif ddigwyddiadau a'r cynnydd a wnaed gyda chynllun gweithredu 'Canfod eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol'  flwyddyn wedi ei lansio.**

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Cynnydd y Cynllun Gweithredu - cipolwg

| **Maes ffocws 1** Creu rhwydwaith mwy cydlynol ar gyfer trafodaethau cyhoeddus, cefnogaeth cymheiriaid a rhannu ymarfer da | **Maes ffocws 2** Sicrhau y caiff cynnwys y cyhoedd ei hyrwyddo a'i gefnogi ar lefelau uwch ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | **Maes ffocws 3** Datblygu strategaeth cynnwys y cyhoedd ddefnyddiol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | **Maes ffocws 4** Bod yn dryloyw ynghylch y modd y caiff cynnwys y cyhoedd ei adlewyrchu ym mhrosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ei hun | **Maes ffocws 5** Mynd i'r afael â rhwystrau rhag cynnwys yn cyhoedd yn effeithlon | **Maes ffocws 6** Darparu hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth effeithlon i ymchwilwyr, rheolwyr ymchwil a gweinyddwyr | **Maes ffocws 6** Darparu hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth effeithlon i ymchwilwyr, rheolwyr ymchwil a gweinyddwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** | ***Gweithredu*** |
| 1.1 | 2.1 | 3.1 | 4.1 | 5.1 | 6.1 | 7.1 |
| 1.2 | 2.2 | | | | 6.2 | 7.2 |
| | 2.3 | | | | | 7.3 |
| | | | | | | 7.4 |

KEY

**Yn gyflawn** | **ar y gweill** | **heb ei gychwyn eto**

# Prif Uchafbwyntiau

Mae'r cynnydd gyda gweithgareddau'r cynllun gweithredu yn cynnwys:

- Sefydlu Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu, trefnu 3 digwyddiad gyda nifer dda yn eu mynychu
- Cyd-ddylunio Strategaeth Cynnwys y Cyhoedd wedi ei gwblhau, yn barod i'w weithredu
- Hyfforddiant cynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ei symud i fformat ar-lein
- Sefydlu Cynghrair Cynnwys fel y gall arweinwyr cynnwys y cyhoedd rannu ymarfer da
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyd-lofnodwyr ar ' Ymrwymiad Prydain Gyfan i Gynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil'

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Cynnwys yn ôl niferoedd 2020/21

**249**

Nifer y cyfleoedd cynnwys a gynigiwyd

**642***

Nifer y cyfranwyr o blith y cyhoedd gafodd eu cynnwys

**90**

Presenoldeb mewn fforymau cynnwys (cyfartaledd ym mhob digwyddiad)

**15**

Cysylltiadau newydd gyda sefydliadau/grwpiau cymunedol

* Amcangyfrif yw'r ffigwr hwn. Nid ydym wedi derbyn cofnod llawn a therfynol o nifer y cyfranwyr i bob cyfle na rhestr gywir o'r cyfranwr sydd yn ymuno gyda nifer o gyfleoedd.

# Diweddariad ar Faes Ffocws 1

**Maes Ffocws 1:** Creu rhwydwaith mwy cydlynol ar gyfer trafodaethau cynnwys y cyhoedd, cefnogaeth cymheiriaid a rhannu ymarfer da

**Cam 1.1:** Creu fforwm ar gyfer trafodaethau rheolaidd ar gynnwys y cyhoedd a rhannu ymarfer da

- Mae'r Fforwm wedi ei sefydlu, gyda 3 digwyddiad bob blwyddyn a 'phartïon gwaith' ar bynciau penodol
- Model y Fforwm yn cael ei addasu ar sail yr adborth yn dilyn pob digwyddiad

**Cam 1.2:** Model peilot ar gyfer 'seminarau' ar gynnwys y cyhoedd, gydag enghreifftiau a thystiolaeth ac 'awgrymiadau ar gyfer gwella'

- Nid yw'r gwaith hwn wedi ei gychwyn eto

# Maes Ffocws 2 - diweddariad

**Maes Ffocws 2:** Sicrhau y caiff cynnwys y cyhoedd ei hyrwyddo a'i gefnogi ar lefelau uwch ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

**Cam 2.1:** Gosod disgwyliadau o ran rôl ymchwilwyr er mwyn hyrwyddo cynnwys y cyhoedd

- Ymarfer sgopio gydag ymchwilwyr o adran meddygaeth y bobl Prifysgol Caerdydd, yn archwilio ymarferoldeb a goblygiadau'r modd y gellir dod â chyfrifoldebau cynnwys y cyhoedd i mewn i rolau ymchwilwyr

**Cam 2.2:** Sicrhau bod yna gynrychiolaeth addas o aelodau'r cyhoedd ar lefelau rheolaeth uchel Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

- Cyfranwyr o blith y cyhoedd eisoes wedi eu derbyn ar lawer o lefelau rheolaeth yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys panelau blaenoriaethu ac ariannu ymchwil
- Trefniadau llywodraethol newydd heb eu sefydlu eto, ond bydd datblygiadau yn cynnwys cynrychiolaeth o blith y cyhoedd

**Cam 2.3:** Ffurfio cysylltiadau gydag addysg ïs-raddedig ac ôl-raddedig er mwyn hyrwyddo gwerth ymchwil a chynnwys y cyhoedd fel rhan allweddol o addysg

- Ymarfer desg wedi ei sefydlu er mwyn sgopio dulliau presennol ledled y DU

# Maes Ffocws 3 - Diweddariad

**Maes Ffocws 3:** Datblygu strategaeth cynnwys y cyhoedd ddefnyddiol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

**Cam 3.1:** Creu a gweithredu strategaeth gydlynol ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

- Strategaeth cynnwys y cyhoedd wedi ei dylunio ar y cyd trwy gyfrwng gweithgor yn cynnwys cyfranwyr o'r cyhoedd, ymchwilwyr a staff Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Cafodd y strategaeth ei chyhoeddi yn Awst 2021
- Elfen gyntaf y strategaeth yw lansiad ymgyrch cyhoeddus, aml-lwyfan "ble byddem ni heb ymchwil?"
- Cafodd ei lansio ar 23ain Chwefror 2022
- Nifer y gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer cyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd, yn cynnwys:
- Digwyddiadau cymunedol, webinarau, gweithgareddau maes
- Posteri, taflenni, hysbysebion cysgodfannu bws ayyb.
- Fideos gwybodaeth
- Hanesion gwir yn amlygu pwysigrwydd ac effaith ymchwil
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys etholiadau, inffograffeg, clipiau fideo
- Cyfres podlediad lle bydd pob pennod yn archwilio lle byddem ni heb ymchwil, gan gynnwys rhestr o siaradwyr gwâdd

# Maes Ffocws 4 - diweddariad

**Maes Ffocws 4:** Bod yn dryloyw ynghylch y modd y caiff cynnwys y cyhoedd ei adlewyrchu ym mhrosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ei hun

**Cam 4.1:** Cynnal archwiliad o brosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn erbyn Safonau Cynnwys y Cyhoedd y DU er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliannau pellach

- Yr arolwg llawn heb ei gychwyn eto
- Caiff cyflwyniadau ar y modd y mae cynnwys y cyhoedd wedi ei wreiddio mewn panelau blaenoriaethu ac ariannu ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eu cyhoeddi ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch rôl y cyhoedd yn y prosesau hyn

# Maes Ffocws 5 - diweddariad

**Maes Ffocws 5:** Mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol i gynnwys y cyhoedd yn effeithlon

**Cam 5.1:** Egluro'r trefniadau a'r disgwyliadau o ran defnyddio adnoddau cynnwys y cyhoedd a pholisïau talu

- Mae'r prosiect yn awr wedi ei dderbyn gan Grŵp Cynnwys y Cyhoedd y 5 Gwlad (y DU ac Iwerddon) o ran mabwysiadu agwedd gyfun tuag at fynd i'r afael â hyn
- Mae gan y 5 gwlad 'Is-grŵp taliadau i gyfranwyr o blith y cyhoedd' a'i gadeiryddion yw cynrychiolwyr Cymru (Reshma Raycoba a Bob McAlister) – mae iddo ystod eang o aelodau gan gynnwys cyfranwyr o blith y cyhoedd, arweinwyr PI a chydweithwyr HR a Chyllid
- Un o brif achosion y broblem yw ansicrwydd ynghylch cyfarwyddyd HMRC a sefydliadau sydd yn awyddus i fod yn weithgar fel y disgwylid
- Mae HMRC wedi cyflwyno cyfarwyddyd defnyddiol i'r tîm prosiect ar gyfer cefnogi datblygiad cyfarwyddyd penodol
- Dogfen gyfarwyddyd i'w datblygu ar gyfer ei lansio fel dogfen ymgynghorol i fod mewn defnydd ym mis Ebrill 2022
- I ymuno â'r grŵp diddordeb, ebostiwch: reshma.raycoba@wales.nhs.uk

# Maes Ffocws 6 - diweddariad

**Maes Ffocws 6:** darparu hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth effeithlon i ymchwilwyr, rheolwyr ymchwil a gweinyddwyr fel y gallant gyflawni cynnwys y cyhoedd yn llwyddiannus

**Cam 6.1:** Adolygiad 6.1 o'r 'pecyn' cefnogaeth cynnwys y cyhoedd cyfredol a sicrhau ei fod yn addas i bwrpas

- Adolygu'r hyfforddiant presennol sydd wedi ei gyflawni yn erbyn Safonau Prydain ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd gyda mewnbwn oddi wrth ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd. Gellir canfod a blaenoriaethu meysydd sydd angen eu gwella a rhoi sylw iddynt
- Addasu hyfforddiant wyneb yn wyneb i gael ei gynnal ar-lein yn ystod canllawiau gweithio o gartref y Llywodraeth
    - Gellid defnyddio dewisiadau ar gyfer derbyn ar-lein ac wyneb yn wyneb ill dau fel cyfryngau hyfforddi er mwyn sicrhau na chaiff neb eu heithrio unai yn ddigidol neu oherwydd iechyd, teithio neu rwystrau eraill
- Ymarfer sgopio wedi ei gynnal ar yr hyfforddiant cynnwys y cyhoedd sydd ar gael dros Gymru gyfan
- Cyflwyno dadansoddiad o anghenion hyfforddiant unigol ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd sydd yn ymrwymo o'r newydd i gymryd rhan

**Cam 6.2:** Trafod achrediad hyfforddiant cynnwys y cyhoedd, ar sail Safonau Prydain ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd, er mwyn cefnogi ei ddefnydd gan ymchwilwyr

- Nid yw'r gwaith hwn wedi ei gychwyn eto

# Maes Ffocws 7 - diweddariad

**Maes Ffocws 7:** Casglu gwybodaeth ddefnyddiol i arddangos gwerth cynnwys y cyhoedd i fentrau ymchwil

**Cam 7.1:** Adolygu ac addasu gofynion adrodd yn ôl ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a grwpiau, gan gynnwys elfen ansoddol

- Trefn adrodd yn ôl Grwpiau Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn awr yn cynnwys adrannau ar gynnwys y cyhoedd a'r defnydd o Safonau Prydain ar gyfer Cynnwys y

**Cam 7.2:** Datblygu templed er mwyn cofnodi'n gyson hanesion am gynnwys y cyhoedd ac astudiaethau achos

- Templed blynyddol adrodd yn ôl ar gyfer grwpiau seilwaith yn cynnwys '*pwy oedd yn cymryd rhan?, beth gafodd ei wneud?, pa wahaniaeth oedd yn ei wneud?'*
- Cafodd teclyn adrodd yn ôl ei ddatblygu er mwyn cofnodi hanesion am gynnwys y cyhoedd ac astudiaethau achos ar gyfer cyfarfodydd deufisol y Cynghrair Cynnwys

**Cam 7.3:** Cyflwyno cefnogaeth a chyfarwyddyd ar gyfer adborth i aelodau'r cyhoedd, a chyfryngau ar gyfer galluogi aelodau'r cyhoedd i roi eu sylwadau ar y profiad o fod yn rhan o'r gwaith

**Cam 7.4:** Creu fframwaith i werthuso'r gwahaniaeth y mae'r cynllun gweithredu'r agwedd cyd-ddylunio hon wedi ei wneud i gynnwys yn cyhoedd ac ymgysylltu yng Nghymru

# Gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer 2022

- 2 ddigwyddiad fforwm pellach
- Datblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cwblhau a gweithredu cyfarwyddyd ar daliadau i gyfranwyr o blith y cyhoedd
- Gweithgorau Cynnwys pellach ar weithgareddau blaenoriaeth allweddol a ganfyddir gan y Fforwm

# Gwybodaeth bellach…

Gellir cyflwyno cwestiynau ar unrhyw ran o gynnwys y sleidiau hyn, neu ar unrhyw faterion cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd trwy wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hyd **28 Chwefror**
https://ymchwiliechydagofalcymru.org/form/pei-forum-pre-event-survey
Wedi'r dyddiad hwn, gallwch anfon eich sylwadau at:
Research-involvement@wales.nhs.uk

Caiff crynodeb o drafodaethau Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r sesiwn Cwestiwn ac Ateb ei gyhoeddi wedi'r digwyddiad.